

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys Contents

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid
Questions to the Finance Minister
- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad
Questions to the Minister for Environment, Planning and Countryside

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid Questions to the Finance Minister

Y Portffolio Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus The Local Government and Public Services Portfolio

Q8 Leighton Andrews: Will the Minister make a statement on the overall budget allocation for the local government and public services portfolio? OAQ0421(FIN)

C8 Leighton Andrews: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gyllideb gyffredinol a ddyrennir i'r portffolio llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus? OAQ0421(FIN)

The Finance Minister (Sue Essex): The budget allocation for the local government main expenditure group for the next three years represents an increase of more than 12.7 per cent between 2005-06 and 2008-09.

Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex): Mae'r cyllid a ddyrannwyd i'r prif grŵp gwariant llywodraeth leol ar gyfer y tair blynedd nesaf yn golygu cynnydd o fwy na 12.7 y cant rhwng 2005-06 a 2008-09.

Y Portffolio Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus The Local Government and Public Services Portfolio

Q9 Karen Sinclair: Will the Minister make a statement on the impact of the Assembly's budget for the next three years on the overall budget allocation for the local government and public services portfolio? OAQ0419(FIN)

C9 Karen Sinclair: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith cyllideb y Cynulliad dros y tair blynedd nesaf ar y gyllideb gyffredinol a ddyrennir i'r portffolio llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus? OAQ0419(FIN)

Sue Essex: The budget allocation for the local government main expenditure group will rise from £3.9 billion in 2006-07 to over £4 billion in 2008-09. This represents an increase of more than 12.7 per cent between 2005-06 and 2008-09.

Sue Essex: Bydd y cyllid a ddyrannwyd i'r prif grŵp gwariant llywodraeth leol yn codi o £3.9 biliwn yn 2006-07 i fwy na £4 biliwn yn 2008-09. Mae hyn yn golygu cynnydd o fwy na 12.7 y cant rhwng 2005-06 a 2008-09.

Polisi Cyllido'r Cynulliad
The Policy for Funding the Assembly

C10 Rhodri Glyn Thomas: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y polisi ar gyfer cyllido'r Cynulliad Cenedlaethol? OAQ0378(FIN)

Q10 Rhodri Glyn Thomas: Will the Minister make a statement on the policy for funding the National Assembly? OAQ0378(FIN)

Sue Essex: The Barnett mechanism and statement of funding policy have provided a clear context for fair financial settlements for Wales. The Assembly Government will be careful and realistic about the prospects of moving away from Barnett. We will have to be confident that any replacement mechanism will continue to provide funding in an open, understandable and stable way.

Sue Essex: Mae mecanwaith Barnett a'r datganiad polisi cyllido wedi darparu cyd-destun eglur ar gyfer setliadau ariannol teg i Gymru. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ofalus ac yn realistig ynghylch y posibilirwydd o symud oddi wrth Barnett. Bydd yn rhaid i ni fod yn hyderus y bydd unrhyw fecanwaith a ddaw yn ei le yn parhau i ddarparu cyllid mewn modd agored, dealladwy a sefydlog.

Dyrannu Adnoddau Ychwanegol
Allocating the Extra Resources

Q11 Glyn Davies: What principles will guide the Minister in allocating the extra resources available in Wales as a result of the pre-budget report? OAQ0396(FIN)

C11 Glyn Davies: Pa egwyddorion a fydd yn tywys y Gweinidog wrth dyrannu'r adnoddau ychwanegol sydd ar gael yng Nghymru o ganlyniad i'r adroddiad rhag-gyllidebol? OAQ0396(FIN)

Sue Essex: The allocation of the extra resources will be in line with the Government strategic agenda, as set out in 'Wales: A Better Country'.

Sue Essex: Bydd yr adnoddau ychwanegol yn cael eu dyrannu yn unol ag agenda strategol y Llywodraeth a nodwyd yn 'Cymru: Gwlad Well'.

Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn
End-year Flexibility

Q12 Eleanor Burnham: How much end-year flexibility does the Minister anticipate being available for the next financial year? OAQ0398(FIN)

C12 Eleanor Burnham: Faint o hyblygrwydd diwedd blwyddyn y mae'r Gweinidog yn rhagweld fydd ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf? OAQ0398(FIN)

Sue Essex: It is not yet possible to give an accurate forecast of our spend this year, however, we aim to continue our good record of ensuring that our spend comes within 1 per cent of our overall expenditure limit.

Sue Essex: Nid yw eto'n bosibl i roi rhagolwg cywir o'n gwariant eleni, ond bwriadwn barhau â'n harfer da o sicrhau bod ein gwariant o fewn 1 y cant i'r terfyn gwariant cyffredinol.

Sail Fformiwla Cyllido Cymru
The Basis of the Formula for Funding Wales

Q13 Jocelyn Davies: Will the Minister make a statement on the basis of the formula employed for the funding of Wales? OAQ0384)

C13 Jocelyn Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sail y fformiwla a ddefnyddir ar gyfer cyllido Cymru? OAQ0384)

Sue Essex: The Barnett mechanism and statement of funding policy have provided a clear context for fair financial settlements for Wales. The Assembly Government will be careful and realistic about the prospects of moving away from Barnett. We will have to be confident that any replacement mechanism will continue to provide funding in an open, understandable and stable way.

Sue Essex: Mae mecanwaith Barnett a'r datganiad polisi cyllido wedi darparu cyddestun eglur ar gyfer setliadau ariannol teg i Gymru. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ofalus ac yn realistig ynghylch y posibilrwydd o symud oddi wrth Barnett. Bydd yn rhaid i ni fod yn hyderus y bydd unrhyw fecanwaith a ddaw yn ei le yn parhau i ddarparu cyllid mewn modd agored, dealladwy a sefydlog.

Darparu Cyllid ar gyfer Cymru The Provision of Funding for Wales

Q14 Janet Ryder: What discussions has the Minister had regarding the provision of funding for Wales? OAQ0382(FIN)

C14 Janet Ryder: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch darparu cyllid ar gyfer Cymru? OAQ0382(FIN)

Sue Essex: I am in regular contact with the Treasury, and I raise issues as appropriate.

Sue Essex: Yr wyf mewn cysylltiad rheolaidd â'r Trysorlys ac yn codi materion fel y bo'n briodol.

Y Gyllideb Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth The Economic Development and Transport Budget

Q15 Kirsty Williams: Will the Minister make a statement on the amount of money allocated for the economic development and transport budget in 2006-07? OAQ0413(FIN)

C15 Kirsty Williams: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y swm a ddyrennir i'r gyllideb datblygu economaidd a thrafnidiaeth yn 2006-07? OAQ0413(FIN)

Sue Essex: The final budget published plans of November 2005 allocated more than £1.4 billion to the economic development and transport main expenditure group in 2006-07. This represents an increase of 2.8 per cent over the 2005-06 published plans.

Sue Essex: Yr oedd y gyllideb derfynol a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2005 yn dyrannu mwy na £1.4 biliwn i brif grŵp gwariant datblygu economaidd a thrafnidiaeth yn 2006-07. Mae hyn yn golygu cynnydd o 2.8 y cant yn fwy na'r cynlluniau a gyhoeddwyd ar gyfer 2005-06.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad Questions to the Minister for Environment, Planning and Countryside

Effeithiau Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin ar Nifer y Defaid Bridio Effects of Common Agricultural Policy Reform on the Number of Breeding Sheep

Q11 Glyn Davies: Will the Minister make a statement about the effects of common agricultural policy reform on the number of breeding sheep in Wales? OAQ0522(EPC)

C11 Glyn Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effeithiau diwygio'r polisi amaethyddol cyffredin ar nifer y defaid bridio yng Nghymru? OAQ0522(EPC)

The Minister for Environment, Planning and Countryside (Carwyn Jones): It is too early to speculate about the effect of CAP reform on breeding stock in Wales.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones): Mae'n rhy gynnar i geisio rhagweld effaith diwygio'r PAC ar stoc bridio yng Nghymru.

Arrangements are in place to assess the impact arising from the implementation of CAP reform in 2005 although it is unlikely that any clear pattern of change will become apparent until 2007.

Mae trefniadau yn eu lle i asesu effaith gweithredu diwygio'r PAC yn 2005 er ei bod yn annhebyg y bydd unrhyw batrwm eglur o newid yn hyd nes 2007.

Gollyngiadau Carbon Carbon Emissions

Q12 Owen John Thomas: What discussions has the Minister had with the Minister for transport regarding the reduction of carbon emissions on the roads of our cities and towns? OAQ0540(EPC)

C12 Owen John Thomas: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal gyda'r Gweinidog dros drafnidiaeth ynglŷn â gollyngiadau carbon ar ffyrdd ein dinasoedd a'n trefi? OAQ0540(EPC)

Carwyn Jones: Andrew Davies and I have agreed that, as Deputy Minister for both portfolios, Tamsin Dunwoody should prepare a report looking at reducing carbon emissions from transport. The report will establish the impacts of carbon emissions from all transport modes, comparing these and proposing mechanisms for reducing emissions.

Carwyn Jones: Mae Andrew Davies a minnau wedi cytuno y dylai Tamsin Dunwoody, fel Dirprwy Weinidog i'r ddau bortffolio, baratoi adroddiad yn edrych ar leihau gollyngiadau carbon o drafnidiaeth. Bydd yr adroddiad yn cadarnhau effaith gollyngiadau carbon o bob math o drafnidiaeth, yn eu cymharu, ac yn awgrymu mecanwaith ar gyfer lleihau gollyngiadau.

Ffermydd Gwynt Windfarms

Q13 Nick Bourne: Will the Minister update us on his policies for promoting windfarms through the planning system? OAQ0564(EPC)

C13 Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am ei bolisiau ar gyfer hyrwyddo ffermydd gwynt drwy'r system gynllunio? OAQ0564(EPC)

Carwyn Jones: Andrew Davies and I announced the publication of the ministerial interim planning policy statement on planning for renewable energy and technical advice note 8 in July 2005. This policy should be taken into account by local planning authorities in the preparation of local development plans, and may be material to decisions on individual planning applications.

Carwyn Jones: Cyhoeddwyd datganiad polisi cynllunio interim y Gweinidog ar gynllunio ar gyfer ynni adnewyddadwy, a nodyn cyngor technegol 8 gennyf i ac Andrew Davies ar y cyd ym mis Gorffennaf 2005. Dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried y polisi hwn wrth baratoi cynlluniau datblygu lleol. Gall y polisi fod yn berthnasol hefyd wrth wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau am ganiatâd cynllunio unigol.

Mesur Cynnydd Datblygu Cynaliadwy Measuring progress in Sustainable Development

Q14 Janet Davies: Will the Minister make a statement on how he intends to measure progress in sustainable development? OAQ0555(EPC)

C14 Janet Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae'n bwriadu mesur y cynnydd a wneir mewn datblygu cynaliadwy? OAQ0555(EPC)

Carwyn Jones: Measurement of the Welsh Assembly Government's progress in sustainable development is made through the

Carwyn Jones: Mae'r cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o ran datblygu cynliadwy yn cael ei fesur drwy'r mwy na

100 plus commitments of its sustainable development action plan. Our annual report identifies the progress made in implementing the commitments.

100 o ymrwymiadau a wnaed yn y cynllun gweithredu datblygu cynaliadwy. Mae ein hadroddiad blynyddol yn nodi'r cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r ymrwymiadau.

Safleoedd Tir Llwyd Brownfield Sites

Q15 Owen John Thomas: Will the Minister reaffirm his Government's commitment to the development of brownfield sites in preference to greenfield sites?
OAQ0541(EPC)

C15 Owen John Thomas: A wnaiff y Gweinidog gadarnhau ymrwymiad ei Lywodraeth i ddatblygu safleoedd tir llwyd yn hytrach na safleoedd tir glas?
OAQ0541(EPC)

Carwyn Jones: The Welsh Assembly Government's policy on the use of brownfield land is contained in 'Planning Policy Wales 2002' and remains unchanged. It is the Assembly Government's policy to encourage the re-use of brownfield land wherever possible, in preference to the use of greenfield land.

Carwyn Jones: Mae polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ddefnyddio tir llwyd wedi ei gynnwys yn 'Polisi Cynllunio Cymru 2002' ac mae'n parhau heb ei newid. Polisi Llywodraeth y Cynulliad ydyw i annog ail-ddefnyddio tir llwyd lle bo hynny'n bosibl, yn hytrach na defnyddio tir glas.